YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1876. [RHIF. 43.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GWERSI MR. GLADSTONE I'R UNDODIAID.

Y MAE o fudd bob amser i eglwys neu sect Gristionogol i wybod am yr agwedd yr ymddengys ei chred a'i hymarferiad i un sydd yn edrych arnynt oddiallan; os yw y siaradwr yn un meddylgar a chraffus, ac yn siarad gyda thegwch a goddefgarwch, ni allant lai na dysgu rhywbeth oddiwrth yr hyn ddywedo. Y mae genym y fath gyfleusdra yn y farn a rydd Mr. Gladstone am Undodiaeth yn y *Contemporary Review*. Tra y mae llawer yn ei feirniadaeth a deimlwn ni sydd gyfeiliornus, y mae llawer ynddi hefyd oddiwrth yr hyn y dylem ddysgu gwersi defnyddiol. Y mae y rhanau hyny o'r erthygl i'r rhai y mae genym wrthwynebiad, wedi cael eu hateb i raddau helaeth mewn erthygl yn yr un cyhoeddiad gan Miss Anna Swanwick, a byddai yn ddefnyddiol i beidio sylwi cymmaint ar yr hyn a ystyriwn ni yn gyfeiliornadau, ag i nodi allan beth allwn ni fel Undodiaid ddysgu oddiwrth ei feirniadaeth.

1. Y mae Mr. Gladstone yn rhestru yr Undodiaid gyda'r cyfryw y mae yn galw *Theists* arnynt. Y mae y gair *theist* yn arwyddo o hono ei hunan, crediniwr yn Nuw, a phe na ddefnyddid ef ond yn unig yn yr ystyr syml wreiddiol yma, buasai pob dyn yn falch i gydnabod ei fod yn *Theist*, ac felly i osod allan ei gydnabyddiaeth a'i addefiad o wirionedd mawr sylfaenol crefydd; fod y greadigaeth yn cael ei llywodraethu a phob tynged ddynol yn cael ei hordeinio gan Fôd Anfeidrol berffaith, enw yr hwn yw cariad, perthynas yr hwn â ni yw Tad, a'r hwn sydd yn gwrando ac yn ateb pob gweddi o eiddo ei blant, pa un ai bydd yn cael ei hadrodd mewn geiriau, neu yn gynnwysedig o ddyrchafiad i fyny o lygaid yr enaid. Ond y mae y gair *Theist* yn cael ei arfer yn gyffredin yn bresenol i ddynodi yr hwn sydd yn gomedd gwneyd defnydd o gymhorth unrhyw broffwyd yn ei ddynesiad at

Dduw; yr hwn sydd yn haeru nad yw efe yn ddysgybl i unrhyw ddysgawdwr crefyddol, ond yn unig yn addolwr unigol. Yn ol y meddyldrych hwn, y mae Mr. Gladstone yn siarad am danom ni fel yn dàl cyfundrefn, "yn yr hon y mae y person unigol, wrth dyfu at addfedrwydd, yn lle derbyn a defnyddio traddodiad ei dad, hyd oni ddelo yn alluog i'w amheu, yn cael ei rybuddio rhag ei dderbyn. Y mae yn cael ei dynghedu, neu ei gynghori i ddechreu o newydd. Ni etifeddodd efe oddiwrth neb, ac ni fydd neb i etifeddu oddiwrtho ef." Drachefn dywed, "Y maent yn amddifadu eu hunain o'r hawl anmhrisiadwy i apelio, naill at athrawiaethau daionus Cristionogaeth hanesyddol, neu at yr effeithiau ardderchog mae wedi achosi." Mentrwn ddywedyd ein bod ni oll yn teimlo nad yw hyn yn arddangosiad teg o'n sefyllfa; yn wir y mae hyn yn cael ei amheu hyd y nod yn ngeiriau yr ysgrifenydd ei hunan mewn rhan arall o'r un erthygl, pan y mae yn dywedyd am Undodiaeth, "Nid wyf yn gwybod ei bod wedi rhoddi i fyny yr hawl o fod yr arddangosiad goreu o'r efengyl gyntefig, fel y traddodwyd hi gan Grist ei hunan."

Ond yr hyn sydd a fynom ni yn fwyaf ag ef yw i sylwi fod yma berygl yn cael ei nodi allan, yn erbyn yr hwn y mae genym i fod yn ochelgar rhag i ni wrth ymfalchio, wrthod neu ddirmygu y cymhorth ellir ei roddi i ni gan ddysgawdwyr y gorphenol. Y mae yn bossibl ddigon i bob un o honom i ddefnyddio ein rheswm a'n cydwybod, heb gymmeryd ein llyfetheirio gan unrhyw gyfundrefn eglwysig, neu unrhyw athrawiaeth draddodiadol, ac ar yr un pryd i deimlo y gallu arweiniol, ac i gael ein haddysgu gan orchymynion, addysgiadau, ac esiampl y Meistr, enw yr hwn ydym yn ei ddwyn. Gwrthodwn blygu i unrhyw awdurdod allanol os ydyw yn dyfod i wrthdarawiad a'n natur neu ein galluoedd neillduol; ond teimlwn ddylanwad cyflawn athrawiaeth sydd yn dyfod atom oddiallan, ac yn mynu, neu yn hawlio ateb mewnol; teimlwn ddylanwad yspryd yn gydraddol i'r hyn y mae yn dyfod yn un â'n hysprydoedd ein hunain, yn melusu ein serchiadau, yn cyffroi ein holl alluoedd, ac yn puro ffynnonau gweithred ynom—o fywyd sydd yn dysgu pa fodd i fyw—o hunanaberth sydd yn peri i ni wrido oblegyd ein bod yn meddwl gormod am y byd hwn a'i bethau, ac yn dyfod yn hunanol a chalon galed; o enaid ag oedd mor wirioneddol un a Duw; y fath athrawiaeth, y fath ddylanwad, y fath fywyd, y fath esiampl grefyddol a welwn yn Iesu Grist; a thra na chredwn mai ei waith oedd gosod i lawr gynllun o dduwinyddiaeth fuasai yn dyogelu ei ddysgyblion rhag y drafferth o feddwl drostynt eu hunain, neu sefydlu deddf-lyfr o foesoldeb fuasai yn dystewi pob cydwybod yn mhlith ei ganlynwyr, nid yw hyn yn un rheswm dros omedd gwrthod ei gymhorth â'i arweiniad, i omedd gweled ardderchogrwydd a phrydferthwch ei gymmeriad, i droi y clust byddar at lais ei ddysgeidiaeth, neu i ymgaledu yn erbyn ei ddylanwad yspryd ol. Nid oes achos i hyn, cofiwn, gymmeryd lle; a'n gwaith ni yn bersonol yw edrych at hyn; nad yw cadwyn cofiant parchus, sydd yn ein cyssylltu â'r gorphenol gogoneddus, i gael ei thori gan hunanhaeriad cryf a nerthol y presenol, i ofalu ein bod yn unigol, tra yn

hollol sicr yn ei feddwl ei hunan, yn addoli Duw gyda chariad addolgar a mabaidd yn ei enaid ei hun—heb un offeiriad na phroffwyd yn sefyll rhyngddo. Y mae ar yr un pryd yn meddiannu y dylanwad cyffrous, y ddysgeidiaeth awgrymiadol, ac esiampl ardderchog yr Iesu, i oleuo ei gerddediad a chynnorthwyo ei ymdrechiadau ar daith ei bererindod daearol.

II. Yr ail gyhuddiad yn erbyn ein cyfundrefn ni yw ei bod, "yn sych, yn dadansoddol, ac anattyniadol heb un ffordd i'r galon gyffredin." Prin y gallesid gwneyd y fath gyhuddiad gan un a wyddai ein crefydd yn ei chanlyniadau ymarferol. A ydyw yn teilyngu cael ei galw yn *dadansoddol* pan y mae yn fwy nag un ffurf arall o Gristionogaeth, yn gosod cymmaint o bwys ar ymddygiad, ar fywyd yn hytrach nac ar y gredo, ar weithredoedd yn hytrach nac ar feddylddrychau? A ydyw yn sych ac anattyniadol, pan y mae yn arddangos i'r enaid dynol Dad nefol, yn gofalu am ei blant, heb dyngedu neb i dragywyddol wae; bob amser yn dywedyd, "Fy mab, moes i mi dy galon;" un sydd yn barod i dderbyn yr afradlon dychweledig—Tad nid yn sefyll yn mhell draw, yn un sarug, ac yn gofyn gwaed i'w ddofi, ond yn agos iawn at bob enaid, yn siarad yn mhob clust agored, a deimlir yn mhob yspryd sydd yn ceisio teimlo ei bresenoldeb, ac o'i anfeidrol gariad ei hun yn diwallu pob angen, yn ysgafnhau pob baich, ac yn maddeu holl bechodau ei blant? A ydyw yn anattyniadol pan y mae yn dysgu dynion i edrych arnynt eu hunain fel nifer o frodyr, yn diddymu canolfur y gwahaniaeth rhwng sectau a chredoau, ac yn gosod allan y bydd lle yn y nefoedd i bawb, ac y bydd i bawb i gael eu dwyn yno, na fydd yr un crwydryn i gael ei golli am byth? Onid oes ganddi "yr un ffordd i'r galon gyffredin," pan yn apelio at y galon yn ngeiriau Crist ei hunan, pan y mae yn gwneyd cariad Duw ei phrif athrawiaeth, cariad at Dduw a dyn fel ei gorchymyn cyntaf? Y mae profiad yn dywedyd wrthym nad yw wedi cael ei harddangos i'r lluaws mewn ffordd y gallant ei deall a'i phrisio, heb gael derbyniad croesawus, fel y mae wedi dwyn dan ei dylanwad gynnulleidfaoedd mawrion o feibion a merched llafur. Nid yw mae'n wir yn apelio at y dychymyg gyda seremoniau teimladwy a gweladwy fel yr Eglwys Babyddol; nid yw yn gwneuthur cyffroadau annaturiol yn yr enaid dynol fel y peth sydd yn cael ei alw yn ddiwygiad efengylaidd; ond y mae yn dyogelu dynion rhag Atheistiaeth pan y mae y dduwinyddiaeth boblogaidd wedi dyfod yn beth anmhossibl iddynt; y mae yn lloni bywyd, yn melusi llafur, ac yn cysuro llawer ar fin marwolaeth, y rhai hebddi fuasent heb Dduw yn y byd.

Pa fodd gan hyny y gellir dwyn y fath gyhuddiad yn erbyn ein crefydd gan un sydd yn ysgrifenu heb yr un bwriad na dymuniad i gamddarlunio, ac yn feddiannol ar allu meddyliol diamheuol? Y mae y bai o'n tu ni ein hunain. Nid ydym wedi gwneyd cyfiawnder a'n crefydd; pan ydym wedi teimlo ei gallu, rhy fynych y mae arnom gywilydd i amlygu ein teimladau; yn ffoi oddiwrth benboethni yr ydym wedi cymmeryd arnom ddiofalwch mewn dull nad ydym ni yn ei deimlo; yn awyddus i fod yn rhesymol yr ydym, ar rai prydiau, wedi ymwrthod â'r teimladol. Yn ein gwasanaeth cyhoeddus yr ydym wedi amcanu at

gael y canu mewn chwaeth dda yn hytrach na'i gael yn gynnulleidfaol, yn fywiog a chalonog, ein pregethau yn gywir o ran dull yn hytrach nag yn alluog o ran mater, ein capeli yn dderbyniol i'r ychydig coethedig yn hytrach nâ'n llawn â'r lluaws cymmysgedig; felly yn ein hymddygiad personol. Y mae gormod o ofn wedi bod arnom i ddangos yn amlwg ein crefydd, yr ydym wedi bod yn ddystaw hyd nes y mae y teimlad anamlygedig wedi colli ei ddylanwad, nid ydym wedi sylweddoli i ni ein hunain, ac o ganlyniad nid ydym wedi amlygu i'r byd lawn nerth a phrydferthwch y gwirioneddau a ddaliwn a'r teimladau a achosant. Nid yw y bai ar ein crefydd ond arnom ni ein hunain. Y mae genym y gwirioneddau, ac mewn rhan o leiaf teimlwn eu gallu, ac os byth y daw yr amser pan y cyhoeddwn y gwirioneddau yma fel y maent yn teilyngu, pan gyhoeddwn i'r byd efengyl cariad, a gwneyd cyflawn gyfiawnder â'r gobeithion ysprydol a'r addewidion mae ein crefydd yn gynnwys, a'u gadael i gyffroi ein calonau, yna y gwelir fod gan ein Cristionogaeth ffordd i'r galon gyffredin, a dylanwad ar y bywyd, yr hyn ddichon ei gwneyd yn halen y ddaear.

III. Ond y cyhuddiad mwyaf pwysig a ddygir yn erbyn Undodiaeth yw hyn—nad oes ynddi yr un esponiad i'w gynnyg ar bynciau neu ofyniadau mawrion bywyd—dim arweinydd trwy ei dywyllwch—yr un sicrwydd i'w roddi i'r galarwr a'r dyoddefydd—dim nerth ac yni i'w gynnyg yn gymhorth i'r temtiedig. Dywedir y gall Cristionogaeth iawnffyddol wneyd rhywbeth i'r holl ddosparthiadau yma. Gadewch i ni gymharu dylanwad y ddwy gyfundrefn yn ngwyneb amgylchiadau o'r fath. Dychymygwn am ddyn yn cael ei wasgu i lawr gan adfyd, dywedwn, â chlefyd diwellhad, yr hwn sydd yn gosod terfyn sydyn ar ei lafur mewn bywyd, ac yn peri iddo fod yn y dyfodol yn faich iddo ef ei hunan ac ereill; gyda gobeithion siomedig, gyda'i gorff cystuddiedig, ei feddwl aflonydd, ei ragolygon am flynyddoedd o ddyoddefaint ar y ddaear, heb gymmaint â gwreichionen o oleuni i lewyrchu ar ei dywyllwch, y mae yn dyfod at grefydd i ofyn am gymhorth a chyssur. Yr oll a all unrhyw grefydd wneyd yw ymdrechu cryfhau yn ei enaid ffydd yn nghariad Duw. Dywed iawnffyddiaeth wrtho am gynllun iachawdwriaeth, siarada ag ef am syrthiad dyn, am Dduw wedi ymgnawdoli, haeddiant Crist, ac iachawdwriaeth y sawl ydynt ennillwyr trwy yr haeddiant yma. Pa fodd y mae hyn oll yn cynnorthwyo y dyoddefydd? Os yw yn credu fod yr Hollalluog yn tynghedu i wae filiynau o'i blant yn unig am eu bod yr hyn mae Ef wedi eu creu, gall feddwl y bydd i'r un Bod Anfeidrol ei dyngedu yntau hefyd i drueni a phoen anobeithiol "er ei ogoniant ei hun." Os yw yn credu i'r Tad nefol gael ei foddloni yn nyoddefiadau ei fab dwyfol, gall feddwl fod Duw yn cael rhyw foddhad yn ei ddyoddefiadau yntau hefyd. Y mae yn cael ei ddyrysu wrth ymdrechu cymmodi y gredo gyda chariad anfeidrol.

Felly mae iawnffyddiaeth, yn lle taflu goleuni ar y gofyniadau a'r angenion a deimlir gan yr hil ddynol, yn ychwanegu atynt un tywyllach a mwy anesponiadwy nâ'r oll. Y mae Undodiaeth, o'r tu arall, yn dysgu yn syml mai "Duw, cariad yw,"—nid yw yn gwybod am un

haerdyb, ddim yn derbyn un gredo, ddim yn nodi un dduwinyddiaeth sydd yn unrhyw fodd yn gwrthwynebu, yn amheu, neu yn gwanhau ffydd gyflawn yn y Cariad Dwyfol. Y mae goruchwyliaethau dirgelaidd, cwestiynau na allwn ni eu deongli, anhawsderau (mewn enw ac mewn gwirionedd) na allwn ond yn rhanol gyfarfod â hwynt; ond er pob peth fel yna, gallwn lynu yn ddiysgog yn y sicrwydd o gariad ein Tad; y mae y galon sydd unwaith wedi ei phrofi, o hyny allan yn rhoddi her i bob anhawsderau deallawl; yn fynych yr ydym ni yn cael ein gorfodi i ateb cwestiynau gyda dweyd "Wn i ddim;" ond gallwn ychwanegu "Nid wyf yn ofni," oblegyd gobeithiwn ac ymddiriedwn yn y cariad hyny, ac y mae hyny yn ddigon i ni.

Meddyliwn etto fod dyn wedi cael ei demtio i gyflawni rhyw bechod mawr ac ysgeler. Dywed y gyfundraeth iawnffyddol fod ei natur yn ei ragdueddu i bechu, fod Duw wedi ei greu yn hollol lygredig, ac nad yw ei weithredoedd da (os yw wedi cyflawni rhai) yn un sail i'w iachawdwriaeth, ac y gall unrhyw bechodau mae wedi eu cyflawni fyned yn ddigosp trwy ddyoddefiadau Crist. Dywed ein ffydd ni wrtho ei fod pan yn pechu yn cyflawni drwg ac yn gwneyd cam, fod Duw wedi ei wneyd yn bur, ac yn gorchymyn iddo gadw ei hunan yn bur, nad oes achos iddo bechu, y gall wrthwynebu profedigaeth, ac os na orchfyga ef, fod yn rhaid iddo ddwyn ar ei ben ei hun y gosp. Pa un o'r ddwy yw y cymhorth mwyaf yn erbyn profedigaeth?

Drachefn, dychymygwn fod galarwr yn sefyll wrth ochr bedd agored gan deimlo ei golled yn y modd dwysaf. A ydyw yn rhyw gyssur iddo i ddweyd wrtho am uffern dragwyddol? A ydyw yr athrawiaeth o foddhad trwy y gwaed, neu yr athrawiaeth o lygredigaeth etifeddiaethol, neu unrhyw athrawiaeth sydd iawnffyddol amlwg, yn dwyn cyssur a dyddanwch i'w galon? Gwyddom y gallai unrhyw Gristion o unrhyw eglwys siarad, yn ngwyneb y fath ddyoddefaint dychrynllyd, am Dad yn y nefoedd, am lawer o drigfanau yn ei dy, ac am obaith am adgyssylltiad dyfodol. A dyma'r gwirioneddau am y rhai y gallwn *ni* feddwl a siarad ar y fath awr; gallwn fyfyrio arnynt heb iddynt gael eu gwanhau neu eu gorchuddio gan gyfrwys-ddadleuon duwinyddiaeth. Yn mhob amgylchiad, nid yw y cymhorth a'r nerth a'r cyssur mae iawnffyddiaeth yn gynnyg ddim yn deilliaw oddiwrth ei hathrawiaethau neillduol, ond oddiwrth yr egwyddorion crefyddol mawrion ydym ni yn gyfranogi gyda hi; y mae gan yr egwyddorion mawrion yma fwy o allu pan y dadgyssylltir hwynt oddiwrth gredoau sydd annaturiol ac afresymol. Paham, gan hyny, y dywedir wrthym fod ein cyfundrefn ni mewn gwirionedd yn annigonol i ddynoliaeth sydd yn dyoddef, yn pechu ac yn galaru? Mwyaf y meddyliom am y peth, mwyaf ydym yn synu ac yn teimlo oblegyd yr ymosodiadau a wneir ar ein ffydd. Ond byddwn yn ofalus mai ein ffydd *ni* ydyw, mai nid yn unig sicrwydd dealldwriaethol ydyw, mai nid yn unig peth i feddwl yn ei chylch a siarad am dani ydyw; ond mai ffydd ddwfn yn ein calonau ydyw, wedi ei gwreiddio yn yr enaid, a'i dwyn i ymarferiad yn ein bywydau. Duw yw ein Tad ni; Cariad yw Duw. Y mae gwyneb prydferth natur, yr oll o'i golygfeydd prydweddol, a'i holl ddylanwadau o felusder a gras,

yn amlygu i ni ogoniant, ac ar yr un pryd, yn dwyn tystiolaeth i ddaioni yr Hwn sydd bresenol gyda ni bob amser—bob amser yn gweithredu trwy y cyfan o honi. Y mae dysgyblaeth bywyd, trwy yr hon y mae ein natur ysprydol yn cael ei haddysgu, yn rhoddi i ni brofiad amrywiol, ar rai prydiau yn oleu, ar brydiau ereill yn dywyll, ac yn fynych yn ddyrus; ond os ydym ni yn ffyddlon, nid yw fyth yn ein gwahanu ni oddiwrth Dduw; yn hytrach y mae yn ein dwyn ni yn nes tuag ato, oblegyd lle nad ydym yn canfod yr ydym yn ymddiried, a daw yr adeg oddiamgylch pan yr adwaenom fel y'n hadweinir. Na fydded i ddim gan hyny ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw; a bydd i amrywiol leisiau y ddaear, yn siarad wrthym yn bresenol megys mewn iaith anmherffaith, a chyda seiniau nad ydym yn eu deall ond yn rhanol, yn y diwedd i uno mewn un cydgor ardderchog a gogoneddus, yn canu mewn tôn gyda'r hon y bydd i'n calonau ateb yn gyflawn ar y geiriau "Duw yw ein Tad—Duw Cariad yw."

JOHN WRIGHT. (Cyfieithiad.)

YR AIFFT A CHANAAN.

JERUSALEM.—LLYTHYR XVIII.

YN araf iawn mae hanes y daith yn myned yn y blaen. Ar y cyfan feallai mae hyny sydd oreu er peidio blino'r darllenwyr yn ormodol. Darfu i ni aros yn Jerusalem yn hwy nâ'n bwriad, am i'r tywydd droi allan yn wlyb ac yn oer iawn. Gadawodd amryw o'r parti ni ac aethant i'r *hotel*, ac yn ddiamheu gwnaethai llawer hyny pe gallent fforddio, oblegyd yr oedd yn bob peth ond cyssurus yn y pebyll.

Mawrth 6ed.—Ymwelwyd â Mosque Omar, teml Mohametanaidd ar y gwastad uchel (mynydd Moriah), lle y tybir yn gyffredin y safai teml yr Arglwydd, teml Solomon gynt. Hwn ydyw'r ardderchocaf o'r holl adeiladau yn Jerusalem, a'r enghraifft oreu o adeiladwaith Sarasenaidd mewn bodolaeth. Mae'r *dome* (tô crwn neu *round*) yn darawiadol iawn ac yn weledig o bob cyfeiriad, a'r cyntaf o bob cyfeiriad yw i dynu sylw dyeithriaid. Dechreuwyd yr adeilad yma wrth bob tebyg tua'r flwyddyn o.c. 680, a gorphenwyd ef yn mhen saith mlynedd. Newidiodd feistri tuag amser y croesgadau, fel y gwnaeth y ddinas hefyd. Yn 1187, ail gymmerodd Saladin Jerusalem, ac oddiar yr amser hwnw mae'r *crescent* wedi bod yn arwyddlun sanctaidd yr adeilad yma, a'r Tyrciaid wedi bod yn berchenogion. Tybia'r Moslemiaid (canlynwyr Mohamet) ei fod yn cynnwys, heblaw rhyfeddodau ereill, yr orsedd ar yr hon y bydd Mohamet yn eistedd i farnu y byd. A dywedir fod y graig Es-Sucrah, uwch yr hon y mae'r Mosque wedi ei hadeiladu, yn un o greigiau Paradwys. Yma un amser bu traed Dafydd a Solomon yn rhodio; a dywedir mai yma yr oedd llawrdyrnu Arafnah y Jebusiad, (2 Samuel xxiv. 15—25). Odditano y mae ogof lle dywedir fod Abraham, Dafydd, Solomon a'r Iesu wedi bod yn gweddio. Yn llawr yr ogof yma mae

slab o farmor, islaw yr hwn y mae "Ffynnon yr Ysprydoedd," a elwir weithiau yn "Borth Uffern;" ond gan ereill yn "Borth Paradwys." Mae *premises* y Mosque yma yn cynnwys tua phumtheg erw ar hugain. Mesura tua 1500 troedfedd ar yr ochr ddwyreiniol, gorllewinol 1600, 1000 ar y gogledd, a 900 ar y dê. Cymmera i fewn yn ddiamheu ar yr ochr ogleddol, holl wastadedd Castell Antonia. Daethom a thamaid o'r uchelwydd (*misletoe*) adref oddiyma. Mae heolydd Jerusalem yn gulion, yn eirwon, ac yn fryntion iawn. Maent wedi eu *pavo* â math o geryg crynion mawrion, a'r rhai hyny wedi treulio yn rhai manau nes ydyw yn boenus i rodio ar hyd-ddynt. Etto cerddwyd llawer yn ol ac yn mlaen trwy'r gwahanol heolydd—yn edrych am ryfeddodau ac yn ymweled â'r gwahanol siopau. Prynodd un o'r cwmni rol mawr Hebraeg, yn cynnwys pum llyfr Moses, ac wedi ei ysgrifenu yn fore iawn. Costiodd arian mawr iddo, a dygodd ef gydag ef i'r America. Dywedodd un o bapurau America ei fod wedi ei ysgrifenu (os wyf yn cofio yn iawn) gan un o orwyrion Aaron. Gallwn feddwl nad allai neb ond Ianci gredu stori o'r fath. Yr oedd yr ysgrif yn ddiamheu yn werthfawr ac yn gywrain iawn. Prynais inau rol bychan o un o lyfrau yr hen Destament, ac yr wyf yn addef fan yma fy mod yn ei werthfawrogi. Hoff fan gan lawer o honom i ymgyrchu iddo oedd y siop lle'r oeddid yn gweithio ac yn gwerthu teganau coed. Pren yr Olewwydd oedd yr un oedd yn cael ei ddwyn i wasanaeth fwyaf. Prynodd rhai werth arian lawer. Prynodd un dyn lonaid *box* mawr iawn. Yr wyf yn meddwl i minnau wario mwy yma nag yn un man arall. Yr oedd y dynion yn dangos cywreinrwydd mawr yn eu celfyddyd. Yn y siop lle cefais y rhol, prynais ychydig ddarnau o hen *goins*—arian bathol—tua 2000 o oedran. Ond i frysio yn y blaen etto, aeth fy nghyfaill a minau un diwrnod (nid wyf yn cofio pa un) ar ymdaith arall allan i'r wlad. Aethom yn groes i afon Cedron. Anfynych iawn y gwelir dwfr yn afon Cedron yn awr; mae'n gofyn gwlaw trwm iawn cyn y cymmer hyny le hyd yn nod yn nhymhor y gwlawogydd. Ar adeg felly mae llawenydd mawr yn Jerusalem, ac fe fu'r cyfryw lawenydd ar yr adeg hon. Wedi croesi'r Cedron daethom at Gethsemane. Ceir yma ddwy ardd Gethsemane gerllaw eu gilydd, dim ond heol gul rhyngddynt, y naill yn perthyn i Eglwys Rhufain a'r llall i Eglwys Groeg. Aethom i mewn i'r olaf. Ein harweinydd oedd yr offeiriad ei hunan. Ar y muriau amgylchynol yr oedd amryw ddarluniau, Mair y Forwyn a'i Mab, &c. Mae'n tyfu yn yr ardd dair neu bedair Olewwydden fawr, ac yr oedd yr offeiriad am i ni gredu eu bod yno oddiar amser yr Iachawdwr. Rhaid addef fod golwg hynafol iawn arnynt; ond pa mor hen y dynt gallwn feddwl eu bod yn anmhossibl dywedyd. Cyn ymadael rhoddodd yr offeiriad i ni bob o frigyn oddiar yr Olewwydden, yn nghyd â phob o dwsw o flodeu o'r ardd. Yr oedd y Gold Mair yn hardd iawn yno, ac y mae genyf un o honynt yn awr.

Cawsom ein rhybuddio i beidio myned i fynydd yr Olewydd heb gwmni. Yr oedd boneddwr, gweinidog enwog yn perthyn i'r Annibynwyr yn Llundain, ddwy flynedd cyn hyny, er gwaethaf pob rhybudd wedi myned tuag yno ar fore Sul wrtho ei hun. Yr oedd am

gael awr o hunan fyfyrdod ar ben y mynydd. Pa faint a gafodd ni chlywais, ond cyn iddo derfynu ei fyfyrdodau, daeth dau neu dri brawd heibio ac a'i haflonyddasant. Mynent wybod beth oedd yn ei bocedi. Nid oedd efe yn deall eu hiaith, ond dywedir ei fod yn deall eu hawgrymiadau. Amddifadasant ef o bron pob peth oedd am dano. Er hyny i gyd, yr oedd fy nghyfaill a minnau yn barnu ein bod yn ddigon o ddynion, ddau yn nghyd â phob o bastwn yn ein dwylaw, i wneuthur cryn dipyn o dwrw cyn ymostwng i'r fath driniaeth â hynyna. Cychwynasom gan hyny yn ddewr iawn, ac ni chawsom neb i'n haflonyddu. Yr oedd yn hyfryd iawn cael teithio ar hyd mynydd yr Olewwydd, ac yr oedd yr olwg ar sanctaidd ddinas Jerusalem mor ardderchog ag erioed.

Mi welaf deml Seion, mi glywaf Jubili,
Mi welaf ddinas sanctaidd, Jerusalem yw hi.

Mae rhyw sancteiddrwydd a rhyw swyn anwrthwynebol yn perthyn i bob modfedd o'r wlad oddiamgylch i ni, ac oddiyma y mae'r olygfa yn darawiadol dros ben. Mae'r olygfa yn ëang iawn hefyd, ac yn cymmeryd i mewn lawer o fanau ydynt enwog mewn hanes. Odditanom a rhyngom a'r ddinas y mae dyffryn Cedron neu Jehoshaphat yn y golwg, ac oriwaered bob cam hyd yr ymuniad â dyffryn Hinnom (Gehenna). I waered yn y cyfeiriad yna y mae "Mynydd y Rhwystr" (Mount of Offence), lle'r adeiladodd Solomon "uchelfa i Chemos, ffieidd-dra Moab, yn y bryn sydd ar gyfer Jerusalem, ac i Moloch, ffieidd-dra meibion Ammon, ac felly a wnaeth ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd." Ychydig yn nes hwnt dacw "Fryn y Brad Gynghor," lle y dywedir fod tŷ gan Caiaphas un amser, a'r lle y cyfarfu'r offeiriaid a'r henuriaid yn nghyd er ceisio dwyn oddiamgylch ddinystr yr Iesu. Ar yr ochr arall, a thua'r gorllewin, dros ben Bethania a Bethphage, y gwelir y Môr Marw, a thu hwnt i hyny mynyddoedd yr Abarim, lle mae Nebo a Phisgah. Yn un man ar ein taith ar hyd mynydd yr Olewydd daethom ar draws hen gladdfa *(cemetery)*, lle mae ugeiniau os nid cannoedd o geryg beddau a golwg hen iawn arnynt—ar y rhai diweddar yr oedd argraffiadau Hebraeg. Cyfrifir rhai o *cemeteries* Jerusalem yn 2500 oed, gallant fod lawer yn rhagor. Yr oedd yn syndod genym na buasai *fence* oddiamgylch. Ystyria trigolion y ddinas ei fod yn anrhydedd mawr iddynt gael eu claddu yn mhlith yr hen enwogion, a deuant o bell ffordd i farw yn y ddinas fel y caffont y cyfleusdra i gymmysgu eu llwch â llwch seintiau yr hen oesau. Mynych y croesai yr Iesu y mynydd hwn* wrth fyned yn ol ac yn mlaen at y teulu a garai yn Bethania. Mae tair ffordd yn arwain o Jerusalem tuag yno. Nad pa un oedd llwybr dewisol yr Iesu, allwn ni ddim bod yn mhell yma oddiwrth y fan y cymmerodd rhai dygwyddiadau pwysig le. Fan draw y clywwyd y llais "Lazarus, tyred allan!" Ië, yma ar fynydd yr Olewwydd mae'r Cristion yn dysgu canu cân gorfoledd buddugoliaeth uwch brenin y dychryniadau: "O angeu,

* Gall y darllenydd farnu uchder mynydd yr Olewydd, wrth gofio fod yr Wyddfa yn 3571 troedfedd, Cader Idris 2900, a Phumlumon 2500—yr Olewwydd 2724.

pa le mae dy golyn? O fedd, pa le mae dy fuddugoliaeth?" Dim rhyfedd i luaws o'r Iuddewon ddyfod chwe' diwrnod yn ddiweddarach, nid er mwyn yr Iesu yn unig ond fel y gwelent Lazarus, nac iddynt ddyfod â changenau y palmwydd yn eu dwylaw, i gyfarfod yr Iesu, ac yn llefain, "Hosanna, bendigedig yw Brenin Israel, yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd."* Ac ar y mynydd hwn, a'r ddinas a'r Deml yn y golwg yr eisteddodd yr Arglwydd ac y rhoddwyd iddo y gofyniadau yma: "Mynega i ni, pa bryd y bydd y pethau hyn? a pha arwydd fydd o'th ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd?" Ac yr adroddodd yntau yr ateb yn yr hanes a geir yn Mathew xxiv, xxv. Ac ar yr un mynydd drachefn, "pan welodd efe y ddinas, efe a wylodd drosti, gan ddywedyd, Pe gwybuasit dithau, ie, yn dy ddydd hwn, y pethau a berthynent i'th heddwch! eithr y maent yn awr yn guddiedig oddiwrth dy lygaid." Ac o fynydd yr Olewwydd "Efe a aeth yn ol ei arfer" ar y noson ddu hono yn ei hanes, ac "mewn ymdrech meddwl a weddiodd yn ddyfalach: a'i chwys ef oedd fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear." Yma y bradychwyd ef â chusan, yr amgylchynwyd ef â milwyr â chleddyfau, &c., ganddynt, y rhai a roisant ddwylaw arno, ac a'i daliasant ac a'i dygasant ymaith at Caiaphas. Ie, yma, ac ar y mynydd hwn, yr hwn a ddyfrawyd â'i ddagrau, ac a dderbyniodd ei chwys gwaedlyd, y gwelwyd ef yn esgyn ar ddeheulaw'r mawredd. Yma y rhoddwyd y gorchymyn i'r eglwys: "Ewch a dysgwch yr holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur. Ac efe a'u dug hwynt allan hyd yn Bethania; ac a gododd ei ddwylaw, ac a'u bendithiodd hwynt. Ac fe a ddarfu, tra yr oedd efe yn eu bendithio hwynt, ymadael o hono ef oddiwrthynt, ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef."

YR EFENGYL NAD YSGRIFENWYD.

Nis gall un darllenydd o'r Testament Newydd beidio teimlo mor ychydig sydd yn wybyddus am fywyd Iesu Grist. Yn lle llawer o gyfrolau, mae genym bedwar o hanesion byrion ag y gall bachgen yn yr ysgol ddarllen mewn llai na hanner diwrnod. Rhoddir i ni ychydig bregethau allan o lawer o gannoedd; desgrifir ychydig ddyddiau llawn dyddordeb allan o ddeuddeg ar hugain o flynyddau; a chyfeirir at ychydig o weithredoedd, allan o lafur bywyd llawn gwasanaeth egniol a difwlch. Mae hyd yn nod helyntion tair blynedd y weinidogaeth gyhoeddus o'r bedydd hyd y croeshoeliad, yn cael eu hadrodd mor fyr a brysiog, fel mae ychydig dudalenau yn cofnodi amgylchiadau bywyd un ag y dywed yr un llyfrau am dano ei fod y mwyaf, y puraf, a'r teilyngaf o barch o holl ddynion y byd. Mae y rhan ysgrifenedig o'i fywyd mor anmherffaith a'i gymharu a'r hyn nad yw wedi ei ysg-

* Darllener Ioan xii. 1—13; Math. xxiv. 3; Luc xix. 42; xxii. 44; xxiv. 50, 51.

rifenu, fel nas gallwn beidio dymuno ar adegau am y "llawer o bethau ereill a wnaeth yr Iesu."

Ond yn y lle cyntaf, pan y dechreuwn ni i hiraethu am yr efengyl nad yw wedi ei hysgrifenu, mae'n rhaid i ni gofio fod rhan fawr o bob bywyd nad oes dim *eisiau* rhoddi hanes am dano. Ni roddai unrhyw olwg newydd i ni ar y cymmeriad nag unrhyw wersi newydd er ein lles a'n cyfarwyddyd. Mae nodweddion neillduol yn perthyn i bob enaid ydynt yn ddigonol i'ch gwneyd yn hollol gyfarwydd ag ef; ac fel y mae y difynwr (*anatomist*) wrth edrych ar un rhan o'r corff, yn gallu dweyd sut mae'r oll wedi ei gyfansoddi, felly oddiwrth yr ychydig nodweddion yma mae yn hawdd i adeiladu i fyny bersonoliaeth dyn. Felly nid yw bywgraffydd da byth yn tynu ond amlinelliad (*outline*) o'r cymmeriad mae'n ceisio ei ddarlunio. Gydag ychydig gyffyrddiadau mae yn rhoddi i ni neillduolion bywyd y person a ddesgrifir ganddo; a phan mae y rhai hyn wedi eu gosod allan, nid ydym yn gofyn oddiwrth yr ysgrifenydd y manylion dirif ereill yn y rhai mae y cymmeriad yn cyduno a'r ddynoliaeth sydd yn gyffredinol i bawb.

Yn awr, dyma lle mae teilyngdod mawr y pedwar efengylwr yn dyfod i'r golwg. Maent yn gosod allan gymmeriadau cyflawn mewn ychydig frawddegau. Gellir darllen yr hyn a ddywedant am ryw un o'r dysgyblion mewn ychydig funydau, etto maent yn bersonau mor fyw a sylweddol i ni ag yw y rhai a ddarlunir mewn bywgraffiadau cyflawnach. Judas y bradychwr, Pedr y gwadwr, Thomas yr amheuwr, ac Ioan y dysgybl anwyl,—mae y rhai hyn i gyd, er nad oes ond desgrifiadau byrion am danynt, yn aros fel cymmeriadau byw ac annibynol yn ein cof am byth. Gallasai manylion llawnach fod yn ddyddorol, a byddai unrhyw amgylchiad newydd ag y gellid ei ddarganfod, yn dderbyniol iawn gan y meddwl Cristionogol, ond etto nid oes un angen am ragor i ddysgu y gwirioneddau ag y mae eu bywyd yn osod allan.

Ac felly yn ddiamheu nid oedd angen ysgrifenu i lawr y pethau ereill hyny a wnaeth yr Iesu. Mae un olygfa yn Cana yn dangos ei fod yn llawenhau gyda'r rhai llawen; un arall yn Bethania, ei fod yn gallu wylo gyda'r rhai sydd yn wylo. Mae'r ardd a'r anialwch yn profi ei fod yn ddarostyngedig i ymosodiadau profedigaeth, er ei fod yn alluog i fuddugoliaethau drostynt: tra mae y deml a thŷ y Pharisead yn dangos y gallai gynnorthwyo y rhai a demtir a'r rhai a ymollyngant gyda'u profedigaethau. Mae ei serch teuluaidd yn tywynu allan yn yr oriau diweddaf hyny, pan yr ymddiriedodd ofal ei fam i'w gyfaill, ac mae ei serch at ei wlad yn dyfod i'r golwg, pan ar fynydd yr Olewwydd, y gwelodd mewn gweledigaeth ddinystr Jerusalem, ac y tywalltodd ddagrau uwchben yr olygfa. Nid oedd eisiau lluosogi amgylchiadau o'r fath hyn, er eu bod yn hyfryd ac yn ddymunol i'w darllen; oblegyd mae yr ychydig hanesion a roddir yn dadguddio y Crist i ni, yn gymhwys fel mae seryddwyr ar ol sylwi ar ran o yrfa comed yn gallu penderfynu ei holl gylchdro.

Ond yn yr ail le, mae llawer o bethau mewn bywyd na ddylent gael eu hysgrifenu. Maent yn rhy gyssegredig i fywgraffydd i ymdrin â

hwy. Maent gymmaint yn rhan o fodolaeth mewnol dyn, fel mae'n ymddangos yn gyssegr-yspeiliad i'w tynu allan i olwg y byd, a'u gadael fel blodeu tyner, i blygu eu penau a marw. Nid yn unig mae rhai gofidiau mor gyssegredig fel nad oes neb ond calon y dyn ei hunan yn gwybod am eu chwerwedd, ac nid yw yn iawn i arall i ymyru â hwy, ond mae llawenydd hefyd i'w gael sydd yn rhy ddwfn a phur i'w osod allan mewn geiriau. Y gofid dyfnaf yw yr un distaw, sydd yn cau y gwefusau ac yn sychu y llygaid; ac mae y llawenydd uwchaf yn un annhraethadwy, ac ni welir ei arddangosiad allanol ond yn ngwedd y wyneb, neu feallai yn y deigryn sydd yn syrthio oddiar y rudd. Ni ddarfu i'r dyn hwnw weled y Niagara mewn gwirionedd, yr hwn a ddechreuodd siarad ar unwaith am yr olygfa, ac mae'n iawn i chwi i beidio hyderu llawer ar gryfder meddwl y dyn hwnw sydd yn sefyll ar gopa y mynydd ac yn curo eu ddwylaw, ac yn gwaeddi allan, "O mae'n brydferth, mae'n brydferth."

Yn neillduol mae'n rhaid i'n teimladau crefyddol dyfnaf fod bob amser yn anadnabyddus i'r byd. Ni wnai geiriau ond eu treulio ymaith. Ni ddylid siarad am danynt ond wrth y cyfeillion anwylaf hyny ydynt yn ymddangos yn rhanau hanfodol o honom ein hunain. Mae rhywbeth ynom ni na ddylai ereill edrych arno; ac felly mae hi, fel y sylwa Robertson o Brighton, fod dynion mewn gweddi gyhoeddus, yn defnyddio geiriau y Salmydd i osod allan, yn anuniongyrchol deimladau ag y byddai yn anmhriodol i'w gosod allan yn uniongyrchol yn ein iaith ein hunain. Dyma lle mae drwg mawr y gyffesgell Babaidd yn gorphwys, ei bod yn gosod ei hun yn lle y nefoedd, ac yn tynu ymaith y gorchudd oddiar y galon er gweled gyda llygaid cywrain yr hyn na ddylai byth gael ei ddwyn i'r goleuni; ac mae'n ddrwg perthynol i rai cyfundebau Protestanaidd, eu bod gyda chyffelyb gywreinrwydd, yn cymhell dyn wrth farw i ddadguddio ei deimladau cuddiedig a gadael iddynt i basio barn arno.

Yn awr, dylai y bywyd yma i gyd ag y dymunem ni iddo aros yn y dirgel, gael ei gadw yn gyssegredig gan y bywgraffydd. Pa fwyaf ysprydol y byddo'r cymmeriad, llai cyflawn y dylai gael ei ddarlunio, pa fwyaf sanctaidd y byddo'r gweithredoedd, y llai sydd i'w ddweyd am danynt; ac mae'n dangos mor dderchafedig oedd bywyd yr Iesu, ac mor sanctaidd ei yspryd, fod gan yr efengylwyr mor ychydig i ddweyd am danynt. Pan y darfu iddynt ddweyd bod yr Yspryd Glân wedi ei roddi iddo heb fesur, nis gellid rhoddi un desgrifiad ychwanegol o'i natur. Pan y dywedent iddo fyned i fyny i'r mynydd a threulio'r nos mewn gweddi, yr oedd gorfod arnynt i fod yn ddistaw; oblegyd pwy a feiddiai ymyru a'r cymmundeb dirgelaidd hwnw â'r nefoedd? Mae hanes ei fywyd yn anmherffaith iawn—dim ond *outline*, oblegyd yr oedd ei fywyd wedi ei guddio yn y fath fodd yn Nuw, fel nad oedd llawer o hono yn goddef cael ei ysgrifenu.

Ond heblaw hyn, nis gellir desgrifio rhan fawr o yrfa dyn. Nis gellir gosod mewn geiriau y swyn trwy yr hwn mae rhai dynion yn gallu ennill calonau pawb. Gall eraill fod yn fwy hardd, yn fwy coeth a gwybodus, ond mae y rhai hyn trwy rhyw allu

annesgrifiadwy yn sierhau yr ymlyniad dyfnaf, ac yn cyffroi y cariad gwresocaf. Y cyfryw yw gallu arcithiwr mawr fel Demosthenes, sydd yn llywodraethu miloedd a'i eiriau; cadfridog mawr fel Napoleon, presenoldeb yr hwn mewn brwydr sydd yn werth catrodau cyfain o filwyr; dyn mawr fel Washington, ag y mae rhagoroldeb ei gymmeriad yn cadarnhau pob achos a gymmeradwya. Hefyd, mae gallu mewn edrychiad, sydd mor ddiflanol, fel nas gall y paentiwr ei ddal, mor ansylweddol fel nas gall yr ysgrifenydd mwyaf medrus ei ddesgrifio,—etto mae'n cyfnewid holl rediad ein meddyliau, ac yn fynych yn dwyn oddiamgylch chwyldroadau mawrion yn y cymmeriad dynol. Y cyfryw oedd edrychiad yr Iesu ar Pedr—edrychiad a berodd i'r dysgybl cyffrous hwnw, gyda'i dyngu a'i wadu yn *fresh* ar ei enau, fyned allan o bresenoldeb dynion, i wylo yn chwerw mewn unigedd. Y cyfryw hefyd yw edrychiad mam, sydd yn ennill ei phlentyn yn ol i ufyddod—edrychiad sydd yn cospi yn fwy nag ergydion, ac yn aros yn y cof am flynyddau lawer yn rhybudd parhaus yn erbyn ymollwng gyda drwg.

Mae hyn i gyd yn ymddangos yn wir yn neillduol mewn perthynas i'r Iesu. Yr oedd y gallu a dynai luoedd ar ei ol, er eu bod yn gweled nad oedd efe ddim y Messiah ag y dysgwylient hwy am dano, yn allu nas gellid ei osod mewn geiriau. Nis gall yr efengylwyr, gyda'u holl fedr roddi un symiad am dano. Dywedant fod llawer yn credu, am ei fod yn llefaru gydag awdurdod, ond nid yw eu iaith yn ein cynnorthwyo i ddeall beth mae hyny yn feddwl. Dywedant na feiddiai y swyddogion a anfonwyd allan gan uchel lys Judea ei ddal, oblegyd ei fod yn llefaru fel na lefarodd dyn erioed o'r blaen; ond nis gallant ddweyd sut y llefarai. Maent yn crybwyll yr edrychiad hwnw a gyfnewidiodd Pedr o fod yn goward ac yn regwr, i fod yn apostol ffyddlon iddo ei hun, ond nid ydynt yn gwneyd un ymgais i'w baentio. Gyda'u holl ysprydoliaeth nid oeddynt yn alluog i ddesgrifio y golygfeydd yma, ac o ganlyniad maent wedi gadael ein gwybodaeth am yr Iesu yn anmherffaith iawn, oblegyd fod rhan fawr o'i fywyd nad oedd yn bossibl i'w chofnodi.

Yn yr holl hanes yma o'r Efengyl nad Ysgrifenwyd, mae gwers er ein cefnogaeth ni. Nid y bywydau ydynt yn llanw y cyfrolau mwyaf yn ein llyfrgelloedd, yn fwyaf enwog mewn hanes, ac a anfydeddir gan y cofgolofnau gwychaf,—nid y rhai yma yn unig sydd wedi llesoli dynolryw ac wedi gogoneddu Tad pawb. Mae gwasanaeth cwbl mor dderbyniol wedi ei wneyd mewn cartrefleoedd tawel, lle mae calonau gostyngedig wedi offrymu yr aberth gymmeradwy, ac wedi arwain y bywyd Cristionogol allan o olwg y byd. Fe ddichon nad ydynt yn gwneyd dim ag y gall y byd ei ganmol neu ei ddeall. Mae'n bossibl iddynt hwy eu hunain i beidio gwybod eu dylanwad, fel nad yw'r mór yn gwybod pan mae'n murmur ar y traeth. Mewn tawelwch mae eu nerth yn gorwedd, mewn ymlyniad gwresog wrth ewyllys Duw. Maent yn cael gafael ar ffynnonell y gallu hwnw ag mae'n rhaid eu deimlo ac ymostwng iddo, ond yr hwn nis gellir ei ddesgrifio. Maent yn byw mor neillduedig fel nad oes ganddynt un syniad am gynhauaf

[illegible] R. M.

NODYNAU GWASGAROG.

Mr. Gol.— [illegible] a chrefyddol. Rwy'n ofni na fydd genych [illegible] Carwn glywed eich barn— [illegible] Yr ydych chwi yn rhy ifanc i gofio am y

"Wreckers"

[illegible]

yn gwybod nemawr am danynt. Er hyny, mae perthynasau iddynt yn fyw etto, neu o leiaf gallwn feddwl hyny. Yn sicr nid yw yr hen yspryd wedi marw. Barnwch chwi, Pan fyddo tŷ cymmydog yn myned ar dân, dygwydda peth felly weithiau; peth rhy gyffredin yw, nid helpu i ddyogelu'r meddiannau—da hyny; ond lladrata'r meddiannau. Ac yr wyf am awgrymu trwy Yr Ymofynydd i bawb pregethwyr, i gyhoeddi o'u pulpudau nad Crist'nogaeth yw peth felly. Chaiff neb fyned i'r nefoedd trwy weithredoedd felly. Dim yn wir. Wrth eu ffrwythau yr adwaenir hwynt. A lladrata dan y fath amgylchiadau hefyd—*Gospel truth*—dyma wirionedd efengylaidd yr wyf yn meddwl, nad oes dim lle i ladron yn y nefoedd. Haeddiant Crist neu beidio, mi ddiffeia i neb i ddwyn adnod o'r Ysgrythyr i ddywedyd y caiff lladron fyned i'r nefoedd. Pa waeth beth fyddo ein credo os bydd ein gweithredoedd yn ddrwg. Nid oes yr un gredo a ddichon achub dyn sydd yn parhau yn ei bechod. Nid wrth ei gredo y barnir dyn, ond wrth ei weithredoedd. Pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe. Dyma eiriau Esgob Manchester, mewn pregeth yn Nghaergrawnt yr wythnos o'r blaen:—"Clywsom yn ddiweddar ei bod yn well i Loegr fod yn rhydd nag yn sobr, ac yr wyf finnau yn dywedyd wrthych yn awr—gwell bod yn bur, yn uniawn ac yn onest, na bod yn *orthodox*, yn iawn ffyddiog yn unig."

O, ie, Disraeli wedi ei ddyrchafu i dŷ yr Arglwydd. Mae 'nawr yn

Earl of Beaconsfield.

Yr oeddym yn dysgwyl rhywbeth o'r fath wrth gwrs, ond nid mor sydyn. Hoff waith gan Dizzy yw creu tipyn o syndod, ac y mae ei holl fywyd ef wedi bod yn syndod. Ganwyd ef yn 1805, o deulu lled isel o ran amgylchiadau'r byd. Cafodd ei addysg gyda gweinidog Undodaidd. Yn fwy trwy ei alluoedd naturiol a'i ymdrechion ei hun, na thrwy ddylanwad a help craill y daeth yn y blaen i'w sefyllfa bresenol. Un o darddiad Iuddewig ydyw. Perthynai i blaid a elwid "Young England" tuag amser pasiad y "Reform Bill" cyntaf (1832). Mae yn bedair blwydd yn henach na Gladstone, yr hwn a anwyd yn 1809. Pan ysgrifenir ei hanes, ysgrifenir hanes dyn hynod, a dyn sydd wedi cael dylanwad neillduol ar y blaid y perthyna iddi. Yr oeddynt wrth ei law, i'w harwain braidd lle y mynai. Nid oes dim llawer o gred ynddo yn Nghymru mae'n wir. Er fod y Cymry wedi gwneuthur eu rhan yn helaeth yn yr etholiad diweddaf i roddi iddo ei fwyafrif presenol; ond maent wedi edifarhau erbyn hyn. Wrth yr enw Disraeli y cyrhaeddodd ei enwogrwydd presenol, ac mae'n amheus a ddaw yr enw newydd "Viscount Hughenden" ac "Earl of Beaconsfield" byth i gymmaint o nod a'r hen enw. Bu'r hen enw o flaen y cyhoedd dros ddeugain mlynedd, ac fe chwareuodd ei berchenog ei ran, ar rai ystyriaethau yn dda feallai, o leiaf yn gyfrwys, ac nid ydym am ddywedyd nad yw ei ymdrechion aruthrol, ei alluoedd dysglaer, a'i *dact* ryfeddol yn teilyngu y gydnabyddiaeth bresenol. Mae wedi bod erioed yn hoff o'r enwau a'r teitlau mawrion, ac yn gosod pwys mawr arnynt. Cofier y swn a wnaed wrth wneuthur y *Queen* yn *Empress*.

Wele enw mawr iddo yntau yn y diwedd, a mawr y lles a gaffo oddiwrtho. Mae henaint wedi ei ddal a diamheu y caiff le yn atob ei oedran yn well yn y tŷ uchaf. Felly groesaw iddo *upstairs*. Yn yr *opposition* y bu efe byw fwyaf, ac yn yr *opposition* y darfu iddo ffurfio ei hunan. Yr oedd yn ddiweddar arno yn ymgymmeryd a llywyddiad y deyrnas. Os oedd erioed wedi ei dori allan at wasanaeth o'r fath, ni chafodd y cyfleusdra tra yn nhymhor ei nerth. Fel prif weinidog nid yw wedi bod yn llwyddiannus iawn. Yr oedd ganddo ei *majority* yn y tŷ, ond nid yw wedi bod bob amser yn ddoeth yn y defnydd a wnaeth o hono. Ychydig o waith y mae efe a'i blaid wedi ei wneuthur yn ystod tymhor eu llwyddiant, ac y mae llawer o hwnw nad yw e ddim yn dda. Nid yw o un dyben ceisio gwthio "Cerbyd y Blaenfynediant" yn ei ol, fe brawf yr holl waith yn ofer bob yn ychydig. Fe ddaw tro carwyr rhyddid a chwareu teg etto cyn bo hir, ac fe ddaw'r werin etto i weled nad aur pob peth sy'n dysgleirio. Nid yw'r môr wedi cyrhaedd ei iseldrai fodd bynag; ond fe ddaw y llanw yn ei bryd.

Yr ydych yn cofio helbul y Parch. Flavel Cook, o Bristol, gyda'r Mr. Jenkins hwnw o Sir Aberteifi. Nid rhyw lawer o barch mae pobl y wlad hono yn ei gyfaddef at y

DIABOLOS,

ac mae'n debyg fod Mr. Jenkins wedi dywedyd rhywbeth yn anmharchus am dano, fel y darfu i Mr. Cook wrthod y cymmundeb iddo nes iddo fyned ar ei liniau ac addef ei fai. Pallodd Jenkins fyned ar ei liniau, a phallodd Cook iddo yntau gael y cymmundeb. Wedi hir helbul, cariodd Jenkins y dydd. Penderfynodd yr awdurdodau fod yn rhaid i Jenkins gael y cymmundeb os oedd yn dewis. Da iawn hyn, oblegyd pa gyssylltiad sydd rhwng anmharchu'r diafol a meddu cymhwysder i dderbyn y cymmun. Addefid fod Jenkins o gymmeriad da. Yn hytrach na chael ei orfodi i weithredu felly yn groes i'w gydwybod rhoddodd Cook ei bulpud yn Clifton i fyny. Dyna i chwi dipyn o *game* onid e! Mae'n iechyd gweled tipyn o gydwybod y dyddiau presenol, pan y mae y fath brinder o hono, a phan y mae yspryd y pysgod a'r torthau yn meddu y fath ddylanwad nerthol yn y byd. Etto carem fod gan Mr. Cook fwy o sylwedd i actio cydwybod mewn perthynas iddo, ac amcan mwy gogoneddus nag amddiffyn y 'gwr drwg.' *Fair play* hyd y nod i'r gwr drwg, ni ddylai efe gael cam. Gwir ei fod yn cael llawer. Mynych y priodolir iddo weithredoedd na fu ganddo erioed yr un bys ynddynt. Aeth costau mawr ar Mr. Cook wrth amddiffyn ei *gase* yn y gwahanol lysoedd. Ond y mae cydymdeimlad pobl Prydain Fawr yn rhyfedd. Nid oes eisiau ond cael rhywbeth *notorious*, ac y mae'n rhedeg yn union fel ffrydlif afon. Nid oedd eisieu ond i'r barbwr yn Blackburn i ladd plentyn bach, a dyna ffrydlif tosturi yn rhedeg, a gweddw a phlant y llofrudd yn cael eu gwneuthur yn gyfoethog mewn ychydig amser. 'Does neb yn gofyn pam y mae plant llofrudd neu leidr yn fwy teilwng o dosturi na phlant pobl onest. Na, na. Dim gwahaniaeth fod gwrthddrychau mwy teilwng. Nid yw

teimlad yn hoff o ymresymu. Mae dros chwe mil o bunnau wedi eu tanysgrifio i Mr. Cook yn annibynol ar gostiau y gyfraith. Rhoddodd hen wraig bresent o £2000 iddo ychydig o ddyddiau yn ol. Teimlai'r hen wraig mae trueni oedd fod yr hen Nic yn cael cam, ac felly dyna £2000 i Mr. Cook am ei amddiffyn! GWYLIEDYDD.

EIN GWEINIDOG NI.

SYLW mewn ysgrif yn YR YMOFYNYDD diweddaf (Awst) sydd wedi bod yn achlysur i'r penawd uchod yn gystal ag i'r sylwadau canlynol. 'Rwy'n hoffi'r teimlad sydd yn arwain dynion i feddwl yn dda ac i siarad yn dda am eu gweinidog eu hunain. Ein gweinidog ni—mae'r geiriau yn awgrymiadol iawn. "Ni roddwn i ddim o'm fôt i'w newid am un gweinidog arall ag wyf yn ei adnabod." Da machgen i! Eled y teimlad yma ar gynnydd yn ein heglwysi. Byddai yn sicr o fod yn llesiol i'r achos yn mhob cynnulleidfa fod yr aelodau yn ceisio coleddu teimlad parchus, ac yn ceisio taenu syniad parchus am eu gweinidog. Can belled ag y byddo'n rhesymol dangoswn fod genym barch i'n gweinidog ni, ein capel ni, ein Hysgol Sul ni. Os oes genym serch atynt, dangoswn ein serch. Digon tebyg fod ffaeleddau yn perthyn i'n gweinidog ni, a diffygion yn perthyn i'n Ysgol Sul ni, a defaid duon rai feallai yn perthyn i'n cynnulleidfa ni; ond cofiwn hyn, nad yn aml y cawn ni ddyn heb ffaeledd yn perthyn iddo, na chymdeithas na fydd arni rai brychau. Feallai pe gwnaem ond holi ein hunain dipyn yn fanwl, caem allan nad ydym ni ddim yn hollol rydd o ddiffygion ein hunain. Yr ydym ni, yn lled dda wrth gwrs; ond na fyddwn yn rhy barod i chwilio y brycheuyn yn llygad ein brawd, gan nad yw yn debyg ein bod ni ein hunain yn gwbl berffaith. Yr ydym yn rhy barod, rai o honom weithiau i fwrw ceryg i ffenestri ein cymmydogion, gan aunghofio ein bod yn gosod ein ffenestri ein hunain mewn perygl wrth hyny. Pa effaith dybygir sydd yn canlyn yr arferiad o godi bys at bob diffyg a welwn, neu a *dybiwn* ein bod yn ei weled yn ein gweinidog, ein cynnulleidfa, neu ein Hysgol Sul ni? Cawn ddynion yn fynych yn fawr eu twrw am lwyddiant yr achos, tra ar yr un pryd y maent yn gwneuthur a allont i ddifenwi a bychanu yr achos yn ei holl gyssylltiadau. Mae'r gweinidog feallai wedi dywedyd rhyw air lledchwith, ac yna mae eisieu ei adrodd a'i gyhoeddi; neu mae aelod o'r gynnulleidfa o bossibl wedi llithro, ac mae'n angenrheidiol anfon clochydd allan i ben yr heol fel y gallo pawb ei wybod; neu mae rhywbeth annymunol wedi cymmeryd lle yn yr Ysgol Sul, ac mae'n rhaid ei floeddio oddiar ben pob tŷ! Nid wyf yn amheu nad oes eisieu cerydd o ryw fath dan y cyfryw amgylchiadau; ond dylid gwneuthur ymgais at fod yn ddoeth yn y dewisiad o gerydd a fyddo'n ateb ei bwrpas. Dylid ceisio gwellhau pob diffyg, ond dylid dewis y cynllun goreu tuag at hyny. Dyn anhapus iawn yn fy ngolwg i yw'r

dyn hwnw nad yw byth yn gweled dim ond brychau, nad oes ganddo lygaid i weled dim ond y diffygion. Ymarferer edrych yn fwy ar ragoriaethau. Mae y rhai hyny yn sicr o fod i gael ond chwilio am danynt. EWYLLYSIWR DA.

Y GAIR UFFERN YN Y BEIBL.

MAE'R Orcus Rhufeinig yn dal yr eneidiau gwelwon—Orcus gwancus, yr hwn nid yw yn arbed na da na drwg. Cadduglyd yw gwlad Groegaidd Hades, trigfan dywyll delwau marwolion ymadawedig, lle mae y cysgodau yn dwyn eu hagweddau byw a'u clwyfau, a dderbyniasant wrth farw; maent yn ymlithro, yn ymgasglu'n nghyd, yn sisial ac yn arwain cysgod o fywyd. Fel yr heliwr anwaraidd ar y *prairie* ysprydol, mae Orion fawr etto yn dwyn ei *mace* pres, yn parhau i hela ar draws y maesydd asphodel yr un anifeiliaid gwylltion ag a laddai gynt ar y mynyddoedd unig. Fel Affricaniad gwyllt, y dydd heddyw, mae Achilles buandroed yn dirmygu y fath fywyd tlawd, teneu, cysgodaidd; carai efe yn hytrach fod y dyn gwaelaf ar y ddaear, nâ bod yn arglwydd yr holl rai meirw.

> Mae'n wir, gellir cymmeryd yr ychain a'r defaid fel yspail,
> Gellir prynu trybeddau a heirdd geffylau melynion;
> Pan dros glawdd y dannedd unwaith y gedy yr enaid,
> Byth nid yw'n dyfod yn ol wedi'i ennill trwy yspail neu bwrcas.

Pa le a pha beth oedd Sheol, trigfa meirwon yr hen Iuddewon gynt? Er fod y desgrifiad o hono yn cael ei osod allan yn y fath fodd gan yr ogof-fedd tywyll, tawel, ac anocheladwy, fel mae'r ddau amgyffrediad yn ymdoddi y naill i'r llall mewn iaith farddonol Hebreig, etto i gyd nid yw Sheol yn enw cyffredin yn unig am leoedd claddu. Mae cenedloedd i'r rhai yr oedd meddylddrych am ardal tanddaearol o ysprydoedd ymadawedig yn feddwl cynnefin, gyda geiriau cynnefin i'w osod allan, yn hollol naturiol yn defnyddio y geiriau yma mewn cyfieithad o'r Beibl fel yn gyfystyr â Sheol. I'r Septuagint Groeg (cyfieithad y deg a thriugain) *Sheol* oedd *Hades*, ac am hwn yr oedd gan y cyfieithwyr Coptaidd eu hen enw *Amenti*, tra mae'r Vulgate yn ei gyfieithu yn *Infernus*—y *lower regions*—yr ardaloedd islaw. Yr oedd y Goth Ulfilas am Hades y Testament Newydd, yn gallu defnyddio *Halja* yn ei hen ystyr Germanaidd o gartref tywyll, cysgodaidd y meirw dan y ddaear, ac y mae'r gair cyferbyniol *Hell*, os cedwir ei ystyr cyntefig yma mewn cof, yn gyfieithad teg o Hades a Sheol yn y Beibl Seisnig, er fod y gair yn awr yn tueddu i gamarwain yr anwybodus, trwy gael ei ddefnyddio hefyd yn yr ystyr o Gehenna, neu le poenedigaeth. Nid oedd yr hen haneswyr a phroffwydi Hebreaidd, trwy ddal allan obaith gogoniant tragwyddol neu ofn poen tragwyddol, fel cymhellyddion arweiniol i fywyd presenol dyn, yn gosod i lawr ond ychydig o athraw-

iaeth uniongyrchol am gyflwr dyfodol, etto mae eu cyfeiriadau achlysurol yn cyfiawnhau'r cyfieithwyr i edrych ar Sheol fel Hades. Man neillduol yw Sheol lle mae dynion meirw yn myned at eu hynafiaid meirw: "Ac Isaac a drengodd ac a fu farw, ac a gasglwyd at ei bobl, yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau, a'i feibion Esau a Jacob a'i claddasant ef." Ac nid oes gan Jacob un meddwl am ei gorff yn cael ei osod gyda chorff Joseph i'w rwygo gan anifeiliaid gwylltion pan y mae yn dywedyd, "Yn ddiau disgynaf yn alarus at fy mab i Sheol" (Hades yn LXX.)

Rhyw le ogofaidd yw Sheol fel yr awgryma'r enw, etto nid rhyw fedd neu gendod arwynebol yn unig yw, ond rhyw bwll tanddaearol o ddyfnder aruthrol: "Cyfuwch a'r nefoedd ydyw, beth a wnai di; dyfnach nâ Sheol, beth a alli di ei wybod?" "Pe cloddient hyd Sheol, fy llaw a'u tynai hwynt oddiyno; a phe dringent i'r nefoedd mi a'u disgynwn hwynt oddiyno?" Iuddew a chenedlddyn a ant i waered yno: "Pa wr a fydd byw, ac ni wel farwolaeth, a wared efe ei enaid o law Sheol." Yno y mae Assur a'i holl gynnulleidfa, Elam a'i holl luaws, yn nghyd a'r cedyrn o'r rhai dienwaededig. "Sheol odditanodd a gynhyrfwyd o'th achos, i gyfarfod â thi wrth dy ddyfodiad: Efe a gyfododd y meirw i ti, sef holl dywysogion y ddaear; Cyfododd holl frenhinoedd y cenhedloedd o'u gorseddfaoedd. Y rhai hyny oll a lefarant, ac a ddywedant wrthynt; a wanhawyd tithau fel ninnau; a aethost ti yn gyffelyb i ni?"

Nid yw y rephaim, "cysgodau'r" meirw, a drigant yn Sheol, yn caru cael eu haflonyddu yn eu gorphwysfa trwy ddewiniaeth; "A Samuel a ddywedodd wrth Saul, Paham yr aflonyddaist arnaf, gan beri i mi ddyfod i fyny." Etto cyferbynir eu gorphwys a'r bywyd ar y ddaear mewn tôn o dristwch; "Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni: canys nid oes na gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd, lle yr wyt ti yn myned." [Gen. 35, 29; 25, 8; 37, 35; Job 11, 8; Amos 9, 2; Ps. 89, 48; Esec. 31, 32; Esa. 14, 9; 38, 10—18; 1 Sam. 28, 15; Preg. 9, 10.] Ni ddarfu i'r cyfryw feddyliau am fywyd y cysgodau yn yr isfyd ddiflanu, pan yn mlynyddoedd diweddarach y genedl Iuddewig, y darfu i'r cyfnewidiad mawr yn athrawiaeth y bywyd dyfodol basio mewn mesur mor helaeth dros y meddwl Hebraeg, ond darfu i'w syniadau boreuol am barhad cysgodol (ghostly) roddi lle i athrawiaethau'r adgyfodiad ac ad-daliad. Mae'r hen feddylddrychau hyd y nod wedi cadw eu lle yn y blaen hyd y meddwl Cristionogol, mewn darluniau cyffelyb i'r "Limbus Patrum," yr Hades lle disgynodd Crist i ollwng y Patriarchiaid yn rhyddion."—*Tylor—Primitive Culture, Vol. II.* 74—6.

CYSGU YN ESMWYTH AC YN DDYOGEL.—MAE llawer o gynghorion gan ddynion tuag at gysgu, a llawer o honynt yn cael eu cyfrif yn anffaeledig. Dywedai hen weinidog parchus gynt mai ffordd sicr i fyned i gysgu oedd i chwi gadw'ch meddwl yn sefydlog ar ben

eich trwyn. Nid oes modd cysgu cyhyd ag y byddo'r meddwl yn crwydro, ond gallai dyn feddwl nad oes fawr i sefydlogi meddwl ar ben trwyn dyn. Mae'n wir fod trwyn ambell i ddyn yn edrych yn ddigon gwresog, ac y gall fod yn ddywenydd gan ambell un i edrych arno ar ddiwrnod oer yn y gauaf. Mae'r melinydd yn cysgu yn swn ei felin, ond yn dihuno pan fo'r felin yn stopio. A phwy nad yw wedi clywed am yr hen wraig, druan, yr hon oedd am amryw nosweithiau wedi methu yn deg a chael cysgu, a ddywedodd pe gallai hi ond myned i'r eglwys y gallai gysgu yn union. Gwyddom am lawer ag mae llais pregethwr yn hollol effeithiol i'w hanfon i gysgu, a gwyr y darllenydd am danynt ond odid hefyd. Cynllun ambell i un i sicrhau cwsg yw dilyn yn ei ddychymyg un ddafad ar ol y llall yn neidio dros ben y clawdd; tra mae ereill yn dychymygu eu hunain yn gweled llongau yn hwylio ar y mor. Cynllun go hynod oedd gan Dr. Wilberforce gynt; adroddai yn araf araf y llythyrenau A, E, I, O,—un ar y tro wrth gwrs, un wrth dynu ei anadl i fewn, ac un wrth ei chwythu allan. Nid oedd byth yn cymmeryd y llythyren U, am nad oes dim i dueddu dyn i gysgu yn yr U; mae'n gofyn gormod o ymdrech a thrafferth i ddodi'r gwefusau mewn trefn, fel nad yw mewn un modd yn ffafriol i ddwyn cwsg. Mae'n hyspys i lawer am y morwr oedd yn methu myned i gysgu am nad oedd yn clywed swn arferol y mor yn taro wrth ochrau y llong, y modd y darfu iddo geisio gan ei fam i efelychu y swn yr oedd efe mor gynnefin ag ef, trwy fwrw stwceidiau o ddwfr ar draws drws yr ystafell lle yr oedd yn ceisio cysgu. Cynghor cyffredin, ac un dyogel i alluogi dyn i gysgu, er nad mor wreiddiol â chynghor y morwr feallai, ond etto cynghor sydd yn werth i bob un sydd yn dyoddef oddiwrth ddiffyg cysgu—cynghor syml a digon rhad yw, sef bwyta wynwyn (*onions*). Wynwyn cyffredin sydd yn oreu i'r pwrpas ac heb eu coginio, ond gwnaiff wynwyn Spain wedi eu stiwio y tro. Mae Mr. Frank Buckland, y naturiaethwr enwog, yn ysgrifenu ar y pwnc fel y canlyn:—"Gwyr pob un flas wynwyn, mae'r blas hwn yn ddyledus i fath o *oil* neillduol sydd yn gynnwysedig yn y gwreiddyn gwerthfawr ac iachus hwn. Mae'n perthyn i'r *oil* hwn yr wyf yn sicr alluoedd cwsg-barawl uchel. Nid wyf fi byth yn ei gael yn methu yn ei waith. Pan yr wyf yn dyoddef oddiwrth ormod o waith, ac yn teimlo nad wyf fi ddim yn myned i gysgu fel arfer, yr wyf yn bwyta dau neu dri o wynwyn bychain, ac y mae'r effaith yn swynol."

Gellir caboli y dur caletaf trwy wlychu yr offerynau â chymmysgedd o ddwy ran o *petroleum* ac un o *turpentine*.

Llawenydd.—Y mae merch fechan yn cynnyg y *recipe* canlynol at wneuthur llawenydd, ac nid yw, meddai, yn gofyn dim tâl am dano:—"Gwahoddwch hanner dwsin o fechgyn a merched i'r tŷ, pan fyddo eich tad a'ch mam oddicartref; cymmerwch ddwpler gweddol ddwfn a llanwch hi â thriagl (mae digon o hono yn y siop), gosodwch swllt yn y canol, a gwasgwch ef i'r gwaelod; yna cynnygwch y swllt i'r bachgen a'i codo â'i wefusau. Po fwyaf o'r bechgyn fyddo'n treio, mwyaf i gyd y llawenydd."

Manion.

NID yw ffortun yn newid dynion, nid yw ond yn tynu'r *mask* i ffwrdd.

NID oes yr un ymbleseru mor rhad â darllen, na'r un pleser mor foddhaol.

PWY yw y gwr doeth? Yr hwn sydd yn dysgu oddiwrth bawb.

YN sicr nid hwnw yw'r ffwl yr hwn sydd ganddo feddyliau annoeth, ond yr hwn sydd yn eu hadrodd.

MEGYS trwy rugliad cysson a pharhaus y cabolir ac y cedwir dur yn ddysglàer, felly trwy ymarferiad parhaus y cedwir talent yn ddysglaer.

Y DYN heb ddim i'w wneuthur yw y truenusaf o bawb. Ni waeth faint o gyfoeth fo gan ddyn, all efe ddim bod yn ddedwydd heb rywbeth i'w wneuthur.

PREGETHAU HIRION.—"Frawd" ebe gweinidog wrth un o'i ddiaconiaid, "yr wyf wedi blino yn fawr." "Yn wir," ebe'r diacon," os felly, gwyddoch sut i dosturio wrthym ni."

PEIDIWCH BYTH COLLI HUNANBARCH.—Peidiwch prynu, peidiwch gwerthu lle mae hunanbarch yn cael ei farchnatâu, canys unwaith y collir hwnw, mae *mainspring* anrhydedd wedi rhwdu a llygru.

DYWEDIR am weinidog yn Ysgotland ei fod yn arfer gwneuthur ei weddiau yn rhy debyg i'w bregethau. Un tro pan ar weddi, adroddodd eiriau o'r Beibl, gan ychwanegu "Canys dyna, O Arglwydd, ydyw y cyfeithiad goreu o'r ymadrodd anhawdd yma."

SYLW AR YR HEN.—Tipyn o sylw ar yr hen, mor ddedwydd mae'n eu gwneuthur. Maent wedi byw i weled claddu y rhan fwyaf o gyfeillion eu bywyd boreol. Mor unig y mae eu horiau. Pa'm na wna'r ieuainc lynu oddiamgylch iddynt a'u cysuro, gan sirioli eu tywyllwch â gwenau happus?

LUTHER AC ERASMUS.—Dywedwyd i "Erasmus ddodwy wy y Diwygiad, ac i Luther ei ori." Erasmus ar ol ffraeo â'r parti newydd a ddywedodd: "Dodwyais i wy giar ond y mae Luther wedi gori ar wy brân." Mae Hallam yn sylwi nad pa beth oedd yr aderyn ei fod wedi bod yn ddewr iawn yn gwanu ei big i'r Eglwys.

'NAWR.—Peidiwch byw un awr o'ch bywyd heb wneuthur yn yr awr hono yn gywir yr hyn sydd i'w wneuthur, a myned trwyddo yn union o'i ddechreu i'w ddiwedd. Gwaith, chwareu, myfyrdod, nad beth yw, ymaflwch ynddo ar unwaith, a gorphenwch ef, ac yna gwnewch y peth nesaf, heb adael i'r munydau i ddropio allan rhyngddynt yn ddiffrwyth.

AR EI BENLINIAU.—Gwelodd offeiriad hen wr tlawd ar ochr y ffordd yn tori ceryg, a phan welodd ef yn penlinio er gwneuthur ei waith yn well, gwnaeth y sylw canlynol:—"Ah, John, mawr y carwn i allu tori calonau celyd fy ngwrandawyr mor rhwydd ag yr ydych chwi yn tori y ceryg yna." Atebodd yr hen wr, "Feallai, syr, nad ydych chwi ddim yn gweithio *ar eich penliniau*."

CREFYDD DUC WELLINGTON.—Dangosodd Duc Wellington ei grefydd ymarferol mewn atebiad i foneddiges a ofynodd iddo p'am yr oedd yn talu cymmaint o sylw i ddyn ag y gwyddai fod ei deulu wedi gwneuthur niwed ac anmharch iddo. "A ydych chwi ddim byth yn adrodd gweddi'r Arglwydd?" "Ydwyf, yn sicr." "Felly finau bob dydd," ebe'r Duc. "Gwyddoch yn awr reswm fy ymddygiad."

Congl yr Holiedydd.

ACROSTIC YSGRYTHYROL.

(1.) Arch-synagogydd a gurwyd yn annghyfiawn o flaen y frawdle, ac yn mhresenoldeb y barnwr.

(2.) Iuddew dychweledig, yr hwn yn anuniongyrchol a fu yn foddion i argyhoeddi llawer o'i gydgenedl mai'r Iesu oedd y Crist.

(3.) Tad teulu o ddeuddeg a bennodwyd fel y pedwerydd dosparth ar hugain o gantorion yn nhy yr Arglwydd.

(4.) Yr ieuangaf o lawer o frodyr, yr hwn a gododd i'r sefyllfa uchaf mewn llwyddiant a gallu.

(5.) Alltud a ymlynodd wrth Dafydd gyda defosiwn fel eiddo Ruth at Naomi.

(6.) Penteulu, aelodau'r hwn oedd yn mhlith yr ychydig a gawsant eu bedyddio gan Paul.

D.S.—Mae'r llythyrenau cyntaf ac olaf yn rhoddi enw eglwys a gafodd ei ffafrio yn uchel, a gafodd ei rhybuddio o'i diffygion, a'i hanog i fyw i fyny i'w rhagorfreintiau.

II. Y mae tad ac y mae ganddo chwe mab ddwy waith; mae gan y meibion yma ddeg merch ar hugain bob un, aml-liwiog, un foch wen ac un foch ddu, y rhai nad ydynt byth yn gweled gwynebau y naill a llall, nac yn byw dros bedair awr ar hugain.

III. Un hwyrnos yn yr haf diweddaf, daeth milwr ieuanc i'n treflan i ymofyn lletty, a chan ei bod yn hwyr yn y nos, a'r treflanwyr ddim yn deall ei iaith, pallodd neb ag agor iddo. Galwodd wrth fy nghastell inau, ac agorais iddo, ac y mae yma yn llettya byth oddiar hyny. Mae yn hynod gyfeillgar â'i feistr bob amser, ac yn hynod o elyniaethus i ysbeilwyr. Mae ei gleddyf yn ei ddwrn yn nghwsg ac yn effro. Mae yn dweyd fod ei fam yn fam a mamgu iddo, a'i dad yn dad ac yn frawd iddo. O ba genedl y mae, a pha fodd mae ei berthynas?

Brechfa. MAGIC.

IV. CAPEL CAERFYRDDIN.—Dywed Gwilym Mai yn *Seren Gomer* 1841, fod y capel Undodaidd yn Nghaerfyrddin wedi bod un amser yn merchenogaeth y Crynwyr. Carwn glywed ai gwir hyn? Wrth gwrs, yr hen gapel yn Heol Awst a gyfeirir ato. Byddai ychydig o'i hanes yn ddyddorol, debygwn.

HYNAFIAETHYDD.

ATEB

I'r "Acrostic Ysgrythyrol" yn Rhifyn Rhagfyr, 1875.

Asa.—Bren. xv. 14.

1. A gripp A.—Actau xxvi. 28.
2. S ila S.—Actau xv. 40.
3. A nn A.—Luc ii. 37.

COCKNEY.

Gohebiaethau.

"NA RODDWCH LE I DDIAFOL."

Buais yn ddiweddar yn gwrando pregeth ar y testyn uchod, ac ar y cyfan yr oedd yn un o'r pregethau goreu a wrandewais erioed. Dywedai'r pregethwr mai'r egwyddor ddialgar mewn dyn oedd y diafol, ac na wyddai am ddiafol tu faes i ddyn, mwy nag a wyddai am ladrad heb leidr. Cymharai ddyn yn rhentu ei ymenydd i ddiafol i ddyn yn rhentu ty i ddeiliad. Sylwai yn gyntaf fod y ty yn rhy dda iddo. Wedi gwneyd rhai sylwadau ar arddercharwgrwydd y ty, pwysai ar y *platform*, ac edrychai o'i gylch. Yna gofynai gyda'r difrifoldeb dwysaf, "A garech chwi rentu y fath dy i'r diafol i artrefu ynddo?" Yn ail, os unwaith y deuai i mewn, y deuai ag ereill gydag ef, ac yna byddai yn anhawdd ei daflu allan. Yn drydydd, y byddai yn sicr o niweidio y ty. Yn bedwerydd, na thalai ddim am y ty—addawai ddigon, ond byth yn talu. Yn olaf, y byddai yn debyg o osod y ty ar dân yn y diwedd. Er ei fod hytrach yn danllyd a brwmstanaidd wrth drafod y pen olaf, yr oeddwn yn ei oddef yn weddol. Yr oedd ei ddylanwad yn dda. Ti, ddarllenydd, a garet ti rentu dy ymenydd i'r diafol i fod yn ddeiliad?

AARON.

UNDODIAETH YN AMERICA.

Mae gohebydd yn ysgrifenu atom fel y canlyn o Parisville, Portage County, Ohio, U.S.A.:—Mae yn yr ardal hon amryw Undodwyr proffesedig, ac amryw o'r ffydd; ond o herwydd eu bod yn aelodau parchus gyda'r Annibynwyr, nid ydynt yn dewis gwneuthur fawr o ymdrech i hau hadau Undodaidd. Tair blynedd ar ddeg ar ugain yn ol, sefydlodd un Tom Griffiths eglwys yma (Thomas Griffiths, o Philadelphia yr amser hwnw,) un o Sir Benfro, cydymaith â mam a nhad pan yn yr ysgol yn mhlwyf Eglwys Erw, Sir Benfro. Clywais ei fod wedi marw yna rai blynyddau yn ol. Carwn gael rhagor o'i hanes. Wel, fe sefydlodd eglwys yma yr amser crybwylledig, a bu yn foddion i wneyd llawer o Undodiaid

yn yr ardal. Mae y rhan fwyaf o'r sawl oedd yn aelodau yn yr eglwys fach hono wedi marw, yn eu plith Caleb Phillips, gynt o Plasyrhendy, plwyf Clyde, Sir Benfro; John Davies, Bryn Cesig, Sir Aberteifi, a John Thomas y gof, neu John Thomas y goes bren, fel ei gelwid, yr hwn, ar ymadawiad Mr. Griffiths, fu yn pregethu ac yn tori'r bara am flynyddau i'r ddeadell fechan. Nid oeddwn i yr amser hwnw ond crotyn bach deuddeg oed, ond yr wyf yn cofio yn dda yr erlid fu gan y Trindodwyr ar yr hen Sosiniaid, ac O fel yr oeddwn yn teimlo sel dros grefydd fy nhad. Yn mhen blynyddau daethum yn ddyn, a deallais yr egwyddorion, ac yr wyf er hyny yn eu proffesu, er fy mod yn aelod gyda'r Annibynwyr.

Hanesion.

Mae Mr. Higginson wedi rhoddi i fyny ei ofal gweinidogaethol yn Abertawe, o herwydd henaint a methiant, ac y mae dyeithriaid yn gwasanaethu yno bob Sul. Treuliodd Mr. H. amser hir yn llafurus ac yn ddefnyddiol yn ngwasanaeth ei enwad, ac y mae'n ymneillduo yn bresenol gyda dymuniad da pawb a'i hadwaenant.

Parheir i bregethu bob Sul yn Nhreorci, Cwm Rhondda, ac er nad oes ond ychydig yn dyfod yn nghyd, mae'r ychydig hyny yn wresog ac yn benderfynol iawn. Carem weled mwy o'r rhai sydd yn ewyllysio yn dda i'r achos yn rhoddi eu presenoldeb yn fwy rheolaidd. Os gadewir i'r adeg bresenol fyned heibio, nis gwyddom pa bryd etto y daw cyfleusdra mor ffafriol. Deuwch, gyfeillion, dangoswch eich ochr. Os credwch fod yr achos yn dda, dangoswch hyny trwy ddyfod i'r cwrdd bob dydd Sul. Yr ydych am gael capel bach i chwi eich hunain,—os felly, ymrestrwch yn y fyddin. Bwriwch eich penau yn nghyd. Ychydig weithgarwch ac ychydig ffyddlondeb yn unig sydd yn eisiau. Chwiliwch am y defaid sydd wedi crwydro, ac arweiniwch hwy i'r gorlan.

Yn Dowlais, nid yw y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mor rheolaidd, ond y mae'r cynnulliadau yn rhagorol pan fyddont. Deallwn fod yno ysgol Sul ragorol. Mae prinder ein gweinidogion yn ei gwneuthur yn anmhossibl i wneuthur cymmaint ag a ddymunid ar ran y gwahanol achosion. Dywedir fod Dowlais yn addfed i gael capel, pe caent rhywun i'w harwain ac i'w trefnu at eu gwaith.

Mae capel newydd y Nottais yn myned yn y blaen yn hwylus, ac y mae'r crefftwyr yn cael tywydd braf. Edrycha Mr. Lloyd, yr hwn sydd wedi gadael ei 81 mlwydd oed, ar yr anturiaeth gyda dyddordeb, ac ystyria bob help i gario'r mudiad i ben yn llwyddiannus fel cymmwynas bersonol iddo ei hun, yr hon a fydd yn gydnabyddiaeth hefyd o'i wasanaeth hirfaith i'r achos. Rhywbeth bach dros hanner yr hyn sydd yn angenrheidiol sydd wedi ei danysgrifio. Teimlir yn ddiolchgar am bob help. Darllener yr hyspysiad ar yr amlen.

Da genym ddeall fod Caradog wedi addaw ei wasanaeth mewn cyfarfod a gynnelir cyn hir yn Mhantydefaid. Gofaled y cyfeillion ddal ar y cyfleusdra i wrandaw arno. Credwn y bydd iddo dderbyniad gwresog yn ngwlad y Cramwyth.

Yr ydym newydd dderbyn copi o'r "Herald Cymreig" am Mai 19, yn cynnwys ar y cyfan grynodeb da iawn o ddarlith Proff. Evans ar "Iesu Grist yn Undodwr." Oni bai ei fod yn awr gymmaint allan o *ddate*, carem ei roddi o flaen ein darllenwyr, er ei fod yn cynnwys rhai gwallau. Traddodwyd y ddarlith yn Llandudno, a chafodd Mr. Evans amryw ddewrion i'w wrthwynebu. Dywedai un "fod yr holl resymau a ddaeth Proff. Evans yn mlaen dros ddweyd mai Undodwr oedd Crist yn profi yr un modd mai Trindodwr oedd." Wrth gwrs barnai y gwrthwynebwyr oll fod ei resymau yn wan. Nid ydym yn synu wrth hyny. Ni chlywsant Undodiaeth erioed o'r blaen, ac nid oeddynt yn gallu pwyso a mesur y rhesymau o gwbl. Nid yw yn hyspys i bawb fod rhai dynion yn gallu gweled Trindod yn mhob adnod yn y Beibl. Yr oedd y Proff. yn hollol wrtho ei hun yno, heb gymmaint a chadeirydd, ac yr oedd holl deimlad y dorf yn ei erbyn. Ond ar y cyfan, cafodd wrandawiad da, ac o bossibl y tueddir rhai, ar ol ychydig ystyriaeth, i weled nad yw yn ddichonadwy i adnod brofi ar yr un pryd

fod Duw yn un a'i fod hefyd yn dri, fod Iesu Grist yn Undodwr ac hefyd yn Driudodwr. Nid oes yr un adnod yn yr Ysgrythyrau yn profi fod Iesu Grist yn credu mewn trindod o bersonau yn yr hanfod dwyfol; ac nid yw dyfynu adnodau o'r Epistolau o fawr pwrpas i brofi beth oedd credo Crist. Ond nid ydym yn ystyried y byddai yn anhawdd i Mr. Evans i brofi fod Paul ac Ioan yn Undodiaid hefyd; er y byddai yn anhawdd iddo, digon tebyg, i brofi dim i foddlonrwydd cynnulleidfa yn Llandudno.

Cafwyd te parti llwyddiannus yn y Nottais dydd Iau, Gorph. 27. Te parti i'r plant oedd, er i rai ereill gael *share*. Ar ol te aethpwyd i waered i lan y mor, lle y treuliwyd dwy awr yn ddifyrus iawn. Yna cychwynwyd tuag adref, ac ar y ffordd canwyd amryw ddarnau yn swynol dros ben.

Aberdar.—Cynnaliodd cynnulleidfa yr Hen-Dy-Cwrdd eu gwyl de flynyddol dydd Iau, Gorphenaf 27ain. Yr oedd y tywydd yn ffafriol iawn, a trodd y cynnulliad allan yn llwyddiant perffaith. Darfu i dros 500 gymmeryd te yn y prydnawn, ac yn yr hwyr yr oedd y capel wedi ei orlenwi yn mhob congl, a lluaws mawr yn gorfod gwrandaw o'r tu allan. Yr oedd Caradog, arweinydd enwog y Côr mawr, wedi addaw llywyddu yn y cyngherdd, ond methodd dyfod erbyn dechreu y cyfarfod, a chymmerwyd y gadair gan weinidog y lle. Dysgwylid yn fawr i weled Caradog, a gwibiai golygon llawer yn naturiol at y drws yn ystod yr hanner awr cyn iddo ddyfod. Gydag wyth o'r gloch daeth i mewn, a mawr oedd y curo dwylaw a'r amlygiadau o foddhad ar ei ymddangosiad. Chwareuodd ar y crwth bump neu chwech o weithiau, ac yr oedd yr effaith yn rhyfeddol. Mae ei offeryn, fel pe byddai, yn fyw yn ei ddwylaw, a gallasem ar adegau ddeall y geiriau fel yr oedd yn chwareu y gerddoriaeth. Cafwyd cyngherdd llwyddiannus iawn, a gallem dybied fod pawb wedi eu llwyr foddloni. Cyn ymadael, talwyd diolchgarwch i'r cantorion am eu gwasanaeth yn y cyngherdd, ac i'r rhai oeddent wedi gweinyddu wrth y byrddau te; ond os wyf yn cofio yn iawn, esgeuluswyd cydnabod ymdrechion y merched ieuainc ac ereill oeddent wedi bod yn ffyddlawn mewn amser ac allan o amser i addurno'r capel erbyn yr achlysur. Yr oedd eu gwaith yn teilyngu cydnabyddiaeth gyhoeddus, ac os nad yw yn rhy ddiweddar cyflwynir ef iddynt drosto ei hun beth bynag gan—*Un oedd yno.*

Marwgofion.

Mehefin 27, Thomas Jones, Teiliwr, Treorci, Cwm Rhondda, yn 36 mlwydd oed. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn Cemetery Treorci. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Glanyrhyd, Ceredigion, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i amser yn Talygareg cyn y daeth i Aberdar rhyw 15 mlynedd yn ol. Bu yn aelod o gynnulleidfa yr Hen-Dy-Cwrdd cyn iddo symmud i Dreorci. Y tro diweddaf y bu allan o'r ty aeth i'r gwasanaeth crefyddol yn Ysgoldy Treorci, sydd yn cael ei gynnal yno bob Sul gan Undodiaid Cwm Rhondda.

Mehefin 27, yn Cardiff Road, Treorci, Daniel, mab ieuanc Mr. Herbert Richard, *Accountant*, Abergorci, yn 10 mlwydd oed. Claddwyd ef yr un amser a'r uchod —y ddwy angladd yn myned yn un orymdaith fawr tua'r Cemetery. Mae Mr. Richard yn ddyn parchus iawn yn y lle, ac yn dderbyniwr cysson o'r Ymofynydd.

Gorph. 7, yn 52 mlwydd oed, David Evans, Bryngaranod, Llanwenog, Ceredigion, gan adael gweddw a thri-ar-ddeg o blant (y rhan luosocaf o honynt yn ieuainc iawn) i alaru ar ei ol. Y dydd Mawrth canlynol, hebryngwyd ei ran oedd farwol gan dyrfa anarferol o fawr i'r "ty rhagderfynedig i bob dyn byw," i fynwent Llanbedr. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth yn y ty cyn cychwyn o'r orymdaith gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a phregethwyd yn darawiadol i'r amgylchiad gan Mr. Alban, diweddar beriglor Llanwenog. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn diwyd a phenderfynol, ac yn dad tyner a gofalus am ei deulu. Cyflawnodd y swydd o *Guardian* rhan uchaf plwyf Llanwenog am flynyddau lawer. Mae'n ddiamheu y teimlir colled ddwys ar ei ol gan lawer tu allan i gylch ei deulu lluosog ei hun.

Gorph. 9, yn 88 mlwydd oed, Anne

Evans, gweddw y diweddar David Evans, White Hall, Brechfa. Yr oedd yn hen wraig llafurus yn ei chartref, ac yn ewyllysio gweinyddu daioni i bawb o ddynolryw.—T. EVANS.

Gorph. 11eg, yn 55 oed, ar ol cystudd poenus am rai wythnosau, Jane Evans, merch Thomas a Mary Evans, Penrhiw, ger Llwynrhydowen. Un ddiwyd a defnyddiol iawn yn ei chartref oedd. a gwel y teulu ei heisiau yn fawr. Caffont er hyny fodd i ymgyssuro yn yr Arglwydd. Claddwyd hi wrth gapel y Llwyn, pan y gweinyddwyd gan weinidog y lle. Yr oedd y bregeth yn y tŷ ar y testun, 1 Tim. vi. 7.

Gorph. 19eg, yn 12 mis oed, yn ddisymwth iawn, Mary, anwyl blentyn David a Gwenllian Davies, Penbwlch, Ystrad, Ceredigion. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol yn Rhydygwin, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. T. Jones a B. Phillips, Temple Bar, ag y pregethodd y Parch. J. Davies, Alltyplacca (yn absenoldeb y gweinidog) i gynnulleidfa luosog. Er fod calon mam a thad wedi eu llanw a hiraeth, ac er iddynt gael eu hamddifadu o weled tlysni a gwenau yr un fach mwyach, bydded iddynt i ymdawelu dan yr ystyriaeth mai

"Llaw Duw sy'n troi'r cwmpasgylch glân,
Yn wiwlân er na weler."

D. H.

Barddoniaeth.

CWLWM PRIODAS.

Cwlwm mâd anwahanadwy—dwys yw,
Dau serch yn cyd-dramwy;
Amlygiad o'u huniad hwy
I fyw adrodd, yw'r fodrwy.

G. WILLIAMS.

Y GWIR A'R ANWIR.

Yn aros mae anwiredd—yn y byd,
'N wyn ei barch a'i fawredd;
Buwyd bron rhoi'r gwirionedd
Gan ddynolryw'n fyw'n ei fedd.

G. WILLIAMS.

Y TEULU.

Y teulu, megys llyfr sydd—
Y plant, hwy ydyw'r dail;
A'r rhiant ydyw'r clawr lle maent
Eu hamddiffynfa'n gael.

Yn gyntaf oll, y dail bob un
Yn wyn a glân a gawn;
Ond amser leinw'r naill a'r llall
A lluniau'n fuan iawn.

Pur gariad ydyw'r rhwymyn aur
Sy'n dyogelu'r oll;
Na thorer hwn, rhag myn'd o'r dail
Ar wasgar ac ar goll.

C. F.

ASYN BALAAM.

To wonder now at Balaam's ass is weak,
Is there a day that asses do not speak?

Am asyn Balaam 'nawr, ffolineb yw rhyfeddu,
Can's nid oes dydd na cheir asynod yn llefaru.

CYFREITHIWR GONEST.

God works a wonder now and then,
Here lies a lawyer and an honest man!

Mae Duw'n cyflawni gwyrthiau
Yn awr ac yn y man;
Cyfreithiwr a dyn gonest
Orwedda'n hyn o fan!

AMLEDD FFYLIAID.

The world of fools has such a store,
That he who would not see an ass,
Must bide at home, and bolt his door,
And break his looking-glass.

Mae yn y byd o ffyliaid y fath stor,
Fel rhaid i'r hwn nad yw am weled asyn,
I aros gartref ac i folltio'i ddor,
Ac wedi hyny dori ei ddrych-wydryn.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

VII.

TALIADAU.

Eiddil Cynon; D.E., Troedyrhiw; J.J., Quakers' Yard; J.L., Dowlais; J.J., Cwmbargod; T.J.P., Blaenddewi; W.L., Pontypridd; W.J., Cwmbach; T.L., Cowbridge.

HEN DY-CWRDD Y NOTTAIS.

Yn gymmaint a bod Capel y Nottais wedi myned yn rhy fach ac yn rhy anaddas i ateb dybenion y gynnulleidfa, yr ydys wedi penderfynu ei dynu i lawr i'w ail-godi yn yr un fan, ar ddull fyddo'n cydweddu yn fwy â chwaeth yr oes bresenol; ond gan fod y rhan amlaf o'r gynnulleidfa o amgylchiadau isel, ac yn analluog i gyfranu fel y dymunent at y treuliau angenrheidiol, y maent dan orfod i appelio at haelioni a theimlad da eu cydgristionogion am gynnorthwy arianol i ddwyn y gwaith i ben. Mae amcan-gyfrif y draul at godi y capel yn nghyd ag ysgoldy yn £550, ac mae y gynnulleidfa wedi gwneyd i fyny yn eu plith eu hunain oddeutu £150. Yr ydys yn gobeithio y gellir agor y Capel newydd cyn diwedd y flwyddyn bresenol. Derbynir gyfraniadau gyda diolchgarwch gan y gweinidog—Y Parch. TITUS LLOYD, Newton, Near Bridgend.

Yn awr yn barod, yr Ail Ran, Pris Ceiniog, neu Wyth Swllt y Cant,

PIGION O EMYNAU.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,
GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

FEL mae yn hyspys i lawer, fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

THE CHURCH OF THE FIRST THREE CENTURIES; or Notices of the Lives and Opinions of some of the early Fathers with special reference to the Doctrine of the Trinity, illustrating its late origin and gradual formation. By Alvan Lamson, D.D. . . . With Notes by Ezra Abbot, D.D., LL.D., and Henry Ierson, M.A. London: British and Foreign Unitarian Association, 37, Norfolk Street, Strand, 1875. 482 pp.

Mae gan y Golygydd ychydig gopiau *(subscription copies)* o'r gwaith gwerthfawr uchod, ac y mae'n foddlon anfon copi yn ddidraul gyda'r *post* ar dderbyniad gwerth hanner coron o *stamps*. Ei bris gyda'r llyfr-werthwyr yw pum swllt.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36 Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.